# YR ATODLENNI

## ATODLEN 4

Rheoli a dileu TSE mewn anifeiliaid defeidiog a gafraidd

### Cadarnhad o TSE (gyda BSE a chlefyd y crafu annodweddiadol wedi eu nacáu) mewn anifeiliaid defeidiog neu afraidd

**5.**—(1) Os cadarnheir bod anifail defeidiog neu afraidd sydd o dan amheuaeth, neu gorff anifail defeidiog neu afraidd, wedi ei heintio â TSE, a bod BSE a chlefyd y crafu annodweddiadol wedi eu nacáu, rhaid i Weinidogion Cymru benderfynu yn unol â Phennod B o Atodiad VII a ddylid—

(a) lladd yr holl anifeiliaid cnoi cil yn y daliad;

(b) lladd yr holl anifeiliaid defeidiog a gafraidd a allai gael eu heintio yn y daliad; neu

(c) peidio â lladd unrhyw anifeiliaid sydd yn y daliad.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad yn rhoi gwybod i feddiannydd y daliad am eu penderfyniad.

(3) Rhaid i'r hysbysiad bennu—

(a) manylion adnabod neu gategori yr anifeiliaid (os oes rhai) sydd i'w lladd a'u difa;

(b) manylion adnabod neu gategori yr anifeiliaid (os oes rhai) sydd i'w cigydda ar gyfer eu bwyta gan bobl;

(c) manylion adnabod unrhyw ofwm neu embryo sydd i'w ddifa;

(d) manylion adnabod yr anifeiliaid (os oes rhai) y caniateir eu cadw; ac

(e) y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad.

(4) Caiff yr hysbysiad osod amodau, cyfyngiadau neu ofynion monitro pellach sy'n gymwys mewn cysylltiad â'r penderfyniad yn unol â Phennod B o Atodiad VII.

(5) Ni chaniateir defnyddio a chludo llaeth a chynhyrchion llaeth sy'n deillio o ddefaid a geifr y mae pwynt 2.2.2 o Bennod B o Atodiad VII yn gymwys iddynt ac eithrio yn unol â'r pwynt hwnnw ac mae methu â chydymffurfio yn drosedd.

(6) Mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 11 yn gymwys.